# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Mercher, 1 Medi 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.E.Freeguard** |
| **Cynghorwyr**: | N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds, A.N.Woolcock a/ac W.F.Griffiths |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, H.Jenkins, C.Griffiths, C.Jones, J.Woodman-Ralph, H.Hasan, C.Plowman a/ac C.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave |

---

1. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Rheoli Risgiau a Chyfrifoldebau mewn perthynas â Thomenni Glofeydd a Chwareli Segur o fewn yr Awdurdod a rheoli Diogelwch Tomenni Glo yn y dyfodol.

Cynghorwyd yr aelodau am y risgiau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r tomenni gwastraff glofeydd a chwareli hanesyddol yn yr awdurdod. Diweddarwyd yr aelodau hefyd am waith Tasglu Diogelwch Tomenni Glo Llywodraeth Cymru ac ymarfer ymgynghori Comisiwn y Gyfraith ar reoli Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru yn y dyfodol, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Rhannodd yr aelodau bryderon am y cyfrifoldebau y mae perchnogion tir preifat a’r awdurdod lleol bellach yn gyfrifol amdanynt.

Teimlwyd mai diben yr awdurdod glo oedd rheoli'r safleoedd hyn, fodd bynnag perchnogion tir oedd yn gyfrifol am gynnal y tomenni hyn yn awr, sy'n cael effaith ar gost. Gofynnwyd i'r pryderon hyn gael eu mynegi i Gomisiwn y Gyfraith. Roedd swyddogion yn deall y pryderon a fynegwyd gan aelodau a gwnaethant sicrhau'r aelodau eu bod hefyd wedi mynegi'r un pryderon i Lywodraeth Cymru. Nodwyd y cafwyd trafodaethau am gyllid posib a allai fod ar gael i helpu i ariannu'r costau hyn a roddwyd i'r perchnogion tir preifat.

Mynegodd yr aelodau ymhellach yr hoffent roi ystyriaeth yn ysgrifenedig i Gomisiwn y Gyfraith, gan fynegi'r pryderon am y cyfrifoldebau ynghylch monitro a chynnal a chadw, y mae'r perchnogion tir bellach yn gyfrifol amdanynt.

Gofynnodd yr aelodau pa fonitro a wnaed ynghylch tomenni gwastraff cloddio glo brig. Nodwyd bod y pyllau glo brig mawr yn y fwrdeistref sirol wedi'u dylunio i fod yn gadarn, ac anfonir copïau o'r cynlluniau i CNC a'r Awdurdod Glo i sicrhau diogelwch ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ceisiwyd cadarnhad ynghylch a fyddai tomenni Categori C a D nad oeddent wedi'u cynnwys yn y ceisiadau yn cael eu harolygu o hyd. Darparwyd sicrwydd, a chadarnhaodd swyddogion y byddai arolygiadau tomenni Categori C a D yn parhau, gan ddibynnu ar gyllid yn y dyfodol.

Cafwyd trafodaethau am y 7% o domenni nad ydynt wedi'u cofrestru, a pha fonitro fyddai ei angen. Amlygodd swyddogion nad oes gan y cyngor ddyletswydd ar hyn o bryd lle byddai angen iddo gymryd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, nodwyd efallai y bydd y cyngor yn dymuno ymyrryd ar yr achlysuron hyn at ddibenion mesur a diogelu ataliol. Felly, nodwyd o fewn yr ymateb i'r ymgynghoriad y byddai swyddogion yn ailadrodd y pryderon hyn ac yn gofyn i'r cyfrifoldebau gael eu hailystyried oherwydd y diffyg adnoddau a phrofiad yn y cyngor, gan ganiatáu i Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Glo fod yn gyfrifol.

Gofynnodd yr aelodau ym mhle mae'r tomenni glo yng Nghastell-nedd Port Talbot. Esboniodd swyddogion fod 404 o domenni glo yng Nghastell-nedd Port Talbot ac esboniwyd nad oes modd nodi'r lleoliadau ar hyn o bryd, fodd bynnag gellir gwneud hyn y tu allan i'r cyfarfod. Esboniodd swyddogion hefyd fanylion y categorïau tomenni glo.

Trafododd yr aelodau pa fonitro oedd ar waith ar gyfer y bylchau a adawyd gan domenni blaenorol, gan fod pryderon ynghylch pa gorff oedd yn gyfrifol am y rhain. Esboniodd swyddogion mai'r awdurdod glo sy'n gyfrifol, fodd bynnag byddent yn codi'r mater o fewn yr ymateb i'r ymgynghoriad er eglurder.

Darparodd yr aelodau sicrwydd i swyddogion y byddai'r pryderon a fynegwyd heddiw yn cael eu pwysleisio i ASau lleol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r materion hyn.

Yn dilyn craffu, roedd yr aelodau'n cefnogi'r argymhellion yn amodol ar y testun ychwanegol ym mhwynt 35 yr argymhelliad, ac argymhelliad ychwanegol fel a fanylwyd isod.

- Oherwydd yr amserlenni a oedd yn berthnasol wrth baratoi ymateb CNPT i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith, rhoddir pwerau dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio baratoi a chyflwyno ymateb i ymarfer ymgynghori Comisiwn y Gyfraith, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Strydlun a Pheirianneg, gydag ymateb o'r fath yn mynd i'r afael â phryderon am gyfrifoldeb ariannol y gwaith cynnal a chadw a drosglwyddir i berchnogion tir.
- Bod yr ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i'r ASau yng Nghastell-nedd Port Talbot i'w hystyried.

2. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r mater a gynhwysir yng Nghofnod Rhif 4 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid eu trafod yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rheswm:
Oherwydd yr elfen amser.

3. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Cefnogaeth CBSCNPT o Bolisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid y Deyrnas Unedig(ARAP)

Trafododd aelodau yr adroddiad brys, a derbyniwyd gwybodaeth mewn perthynas â rhoi'r Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid ar waith, fel a fanylwyd yn yr adroddiad preifat.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet

**CADEIRYDD**